CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2280 (Cy.170)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn sefydlu fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae adran 82(2) o'r Ddeddf yn darparu y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy orchymyn, gyhoeddi cod ynghylch yr ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth weithwyr cyflogedig penodol mewn awdurdodau perthnasol yng Nghymru ("y cod ymddygiad").

Awdurdodau perthnasol yw cynghorau cymuned, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac awdurdodau Parc Cenedlaethol ond nid awdurdodau heddlu.

Y gweithwyr cyflogedig i'r awdurdodau perthnasol nad yw'r cod ymddygiad yn gymwys iddynt yw'r rhai sy'n dod o fewn unrhyw ddisgrifiad o weithwyr cyflogedig mewn rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 82(8) o'r Ddeddf.

Yn rhinwedd adran 82(7) o'r Ddeddf, bernir bod telerau penodi neu amodau cyflogi gweithwyr cyflogedig i'r awdurdodau perthnasol y mae'r cod ymddygiad yn gymwys iddynt yn ymgorffori'r cod ymddygiad a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2280 (W.170)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Code of Conduct (Qualifying Local Government Employees) (Wales) Order 2001

EXPLANATORY NOTE

(This note does not form part of the Order)

Part III of the Local Government Act 2000 ("the Act") establishes a new ethical framework for local government in Wales.

Section 82(2) of the Act provides that the National Assembly for Wales may by order issue a code as regards the conduct which is expected of certain employees of relevant authorities in Wales ("the code of conduct").

The relevant authorities are county, community and county borough councils, fire authorities and National Park authorities but not police authorities.

Employees of relevant authorities to which the code of conduct does not apply are those who fall within any description of employee in regulations made by the National Assembly for Wales under section 82(8) of the Act.

By virtue of section 82(7) of the Act, the terms of appointment or conditions of employment of employees of relevant authorities to whom the code of conduct applies are to be deemed to incorporate the code of conduct set out in the Schedule to this Order.

2001 Rhif 2280 (Cy.170)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001

Wedi'i wneud	*21 Mehefin 2001*
Yn dod i rym	*28 Gorffennaf 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 82(2) a 105(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i bob awdurdod perthnasol yng Nghymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "awdurdod perthnasol" (*"relevant authority"*) yw -

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân a gyfansoddwyd gan gynllun cyfuno o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**b**), neu

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**c**);

ystyr "cyflogai cymwys" (*"qualifying employee"*), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw cyflogai i'r awdurdod heblaw cyflogai sy'n dod o fewn unrhyw

(a) 2000 p.22.

(b) 1947 p.41.

(c) 1995 p.25.

2001 No. 2280 (W.170)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Code of Conduct (Qualifying Local Government Employees) (Wales) Order 2001

Made	*21st June 2001*
Coming into force	*28th July 2001*

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred upon it by sections 82(2) and 105(1) of the Local Government Act 2000(**a**).

Citation, commencement and application

1.-(1) This Order may be cited as the Code of Conduct (Qualifying Local Government Employees) (Wales) Order 2001 and shall come into force on 28th July 2001.

(2) This Order applies to each relevant authority in Wales.

Interpretation

2. In this Order -

"the Act" (*"y Ddeddf"*) means the Local Government Act 2000;

"qualifying employee" (*"cyflogai cymwys"*), in relation to a relevant authority, means an employee of the authority other than an employee falling within any description of employee specified in regulations made by the National Assembly for Wales under section 82(8) of the Act(**b**);

"relevant authority" (*"awdurdod perthnasol"*) means -

(a) a county council,

(b) a county borough council,

(c) a community council,

(d) a fire authority constituted by a combination scheme under the Fire Services Act 1947(**c**), or

(a) 2000 c.22.

(b) S.I. 2001/2278 (W.168).

(c) 1947 c.41.(d) 1995 c.25.

ddisgrifiad o gyflogeion a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 82(8) o'r Ddeddf (**a**);

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

(e) a National Park authority established under section 63 of the Environment Act 1995(**a**).

Y cod ymddygiad ar gyfer cyflogai cymwys i awdurdod perthnasol

3. Mae'r cod ynghylch yr ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth gyflogai cymwys i awdurdod perthnasol wedi'i nodi yn yr Atodlen sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.

Code of conduct for a qualifying employee of a relevant authority

3. The code as regards the conduct which is expected of a qualifying employee of a relevant authority is set out in the Schedule attached to this Order.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**).

21 Mehefin 2001

21st June 2001

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 2001/2278 (Cy168).

(b) 1998 p.38.

(a) 1995 c.25.

(b) 1998 c.38.

ATODLEN

Erthygl 3

COD YMDDYGIAD AR GYFER CYFLOGEION CYMWYS AWDURDODAU PERTHNASOL YNG NGHYMRU

Egwyddorion Cyffredinol

1. Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf oddi wrth bob cyflogai cymwys(**a**) yn yr awdurdodau perthnasol(**b**). Rôl cyflogeion o'r fath yw gwasanaethu'r awdurdod sy'n eu cyflogi wrth iddo roi cyngor, rhoi ei bolisïau ar waith a chyflwyno gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu yn union, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol.

Atebolrwydd

2. Mae cyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol yn gweithio i'r awdurdod sy'n eu cyflogi ac yn gwasanaethu'r cyfan o'r awdurdod hwnnw. Maent yn atebol i'r awdurdod hwnnw ac mae arnynt ddyletswydd tuag ato. Rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod hwn, gan gydnabod dyletswydd holl gyflogeion y sector cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn rhesymol ac yn unol â'r gyfraith.

Amhleidioldeb Gwleidyddol

3. Rhaid i gyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol, p'un a ydynt o dan gyfyngiad gwleidyddol(**c**) neu beidio, ddilyn holl bolisïau'r awdurdod sydd wedi'u mynegi'n gyfreithlon a rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w barn bersonol neu wleidyddol hwy eu hunain ymyrryd â'u gwaith. Os yw'r cyflogeion cymwys o dan gyfyngiad gwleidyddol (oherwydd y swydd sydd ganddynt, natur y gwaith a wnânt, neu'r cyflog a delir iddynt), rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol.

(a) Mae cyflogeion yr awdurdodau perthnasol yng Nghymru nad ydynt yn perthyn o fewn unrhyw ddisgrifiad o gyflogai a bennir yn Rheoliadau Cod Ymddygiad (Cyflogeion Anghymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/ (Cy.)) yn gyflogeion cymwys.

(b) Ystyr awdurdod perthnasol, mewn perthynas â Chymru, yw cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned, awdurdod tân a gyfansoddwyd gan gynllun cyfuno o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 neu awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

(c) Mae cyflogai cymwys sy'n dal swydd sydd o dan gyfyngiad gwleidyddol yn cael ei anghymhwyso rhag dod yn aelod neu rhag parhau yn aelod o awdurdod perthnasol (gweler adrannau 1-3 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42) a Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990 (O.S. 1990/851) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999/1665)).

SCHEDULE

Article 3

CODE OF CONDUCT FOR QUALIFYING EMPLOYEES OFRELEVANT AUTHORITIESIN WALES

General Principles

1. The public is entitled to expect the highest standards of conduct from all qualifying employees(**a**) of relevant authorities(**b**). The role of such employees is to serve their employing authority in providing advice, implementing its policies, and delivering services to the local community. In performing their duties, they must act with integrity, honesty, impartiality and objectivity.

Accountability

2. Qualifying employees of relevant authorities work for their employing authority and serve the whole of that authority. They are accountable to, and owe a duty to that authority. They must act in accordance with the principles set out in this Code, recognising the duty of all public sector employees to discharge public functions reasonably and according to the law.

Political Neutrality

3. Qualifying employees of relevant authorities, whether or not politically restricted(**c**), must follow every lawfully expressed policy of the authority and must not allow their own personal or political opinions to interfere with their work. Where qualifying employees are politically restricted (by reason of the post they hold, the nature of the work they do, or the salary they are paid), they must comply with any statutory restrictions on their political activities.

(a) Employees of relevant authorities in Wales who do not fall within any description of employee specified in the Code of Conduct (Non-Qualifying Local Government Employees) (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/ (W.)) are qualifying employees.

(b) A relevant authority, in relation to Wales, means a county, county borough or community council, a fire authority constituted by a combination scheme under the Fire Services Act 1947 or a National Park authority established under section 63 of the Environment Act 1995.

(c) A qualifying employee who holds a politically restricted post is disqualified from becoming or remaining a member of a relevant authority (see sections 1-3 of the Local Government and Housing Act 1989 (c.42) and the Local Government Officers (Political Restrictions) Regulations 1990 (S.I. 1990/851) as amended by the Local Government Officers (Political Restrictions) (Wales) (Amendment) Regulations 1999 (S.I. 1999/1665)).

Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a chyflogeion eraill

4. Mae cyd-barch rhwng cyflogeion cymwys ac aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai perthnasoedd gwaith gael eu cadw ar sail broffesiynol.

5. Dylai cyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, aelodau a chyflogeion eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiduedd.

Cydraddoldeb

6. Rhaid i gyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol gydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb, fel y cytunir arnynt gan yr awdurdod, yn ychwanegol at ofynion y gyfraith.

Stiwardiaeth

7. Rhaid i gyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol sicrhau eu bod yn defnyddio'r cronfeydd cyhoeddus a ymddiriedir iddynt mewn modd cyfrifol a chyfreithlon, a rhaid iddynt beidio â defnyddio eiddo, cerbydau na chyfleusterau eraill yr awdurdod at ddibenion personol oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

Buddiannau Personol

8. Er mai mater iddynt hwythau yn unig yw bywyd preifat cyflogeion cymwys, rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w buddiannau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus. Rhaid iddynt beidio â chamddefnyddio'u safle swyddogol na gwybodaeth a sicrheir yng nghwrs eu cyflogaeth i hybu eu buddiannau preifat, na buddiannau pobl eraill. Yn benodol, rhaid iddynt gydymffurfio â'r canlynol:

(1) unrhyw reolau sydd gan eu hawdurdod perthnasol bod rhaid i gyflogeion gofrestru a datgan buddiannau ariannol a buddiannau anariannol,

(2) unrhyw reolau sydd gan eu hawdurdod perthnasol bod rhaid i gyflogeion ddatgan lletygarwch neu roddion a gynigiwyd iddynt neu a gymerwyd ganddynt oddi wrth unrhyw berson neu gorff sy'n gwneud busnes neu'n ceisio gwneud busnes gyda'r awdurdod, neu sy'n manteisio neu'n ceisio manteisio mewn modd arall o gael perthynas â'r awdurdod. Rhaid i gyflogeion cymwys beidio â derbyn buddion oddi wrth drydydd parti oni bai bod eu hawdurdod perthnasol wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

Relations with members, the public and other employees

4. Mutual respect between qualifying employees and members is essential to good local government, and working relationships should be kept on a professional basis.

5. Qualifying employees of relevant authorities should deal with the public, members and other employees sympathetically, efficiently, and without bias.

Equality

6. Qualifying employees of relevant authorities must comply with policies relating to equality issues, as agreed by the authority, in addition to the requirements of the law.

Stewardship

7. Qualifying employees of relevant authorities must ensure that they use public funds entrusted to them in a responsible and lawful manner, and must not utilise property, vehicles or other facilities of the authority for personal use unless authorised to do so.

Personal Interests

8. Whilst qualifying employees' private lives are their own concern, they must not allow their private interests to conflict with their public duty. They must not misuse their official position or information acquired in the course of their employment to further their private interests, or the interests of others. In particular, they must comply with:

(1) any rules of their relevant authority on the registration and declaration by employees of financial and non - financial interests,

(2) any rules of their relevant authority on the declaration by employees of hospitality or gifts offered to or received by them, from any person or organisation doing or seeking to do business, or otherwise benefiting or seeking to benefit from a relationship with the authority. Qualifying employees must not accept benefits from a third party unless authorised to do so by their relevant authority.

Chwythu'r chwiban

9. Os digwydd fod cyflogai cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesol neu fel arall yn anghyson â'r Cod hwn, dylai'r cyflogai roi gwybod am y mater, gan weithredu yn unol â'i hawliau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac â gweithdrefn yr awdurdod perthnasol ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol, neu unrhyw weithdrefn arall sydd wedi'i chynllunio at y diben hwn.

Whistleblowing

9. In the event that a qualifying employee becomes aware of activities which that employee believes to be illegal, improper, unethical or otherwise inconsistent with this Code, the employee should report the matter, acting in accordance with the employee's rights under the Public Interest Disclosure Act 1998, and with the relevant authority's confidential reporting procedure, or any other procedure designed for this purpose.

Ymdrin â Gwybodaeth

10. Bod yn agored wrth ledaenu gwybodaeth ac wrth wneud penderfyniadau a ddylai fod yn arferol yn yr awdurdodau perthnasol. Er hynny, fe all gwybodaeth benodol fod yn gyfrinachol neu'n sensitif ac felly yn amhriodol ar gyfer cynulleidfa ehangach. Os oes angen bod yn gyfrinachol er mwyn diogelu preifatrwydd neu hawliau eraill unigolion neu gyrff, ni ddylai gwybodaeth gael ei rhyddhau i unrhyw un heblaw aelod, cyflogai i'r awdurdod perthnasol neu berson arall y mae ganddynt hawl i'w gael neu y mae angen iddynt gael ei gweld er mwyn cyflawni eu swyddogaethau'n iawn. Ni ellir cymryd bod dim yn y Cod hwn yn drech na'r rhwymedigaethau presennol yn y statudau neu'r gyfraith gyffredin i gadw gwybodaeth benodol yn gyfrinachol, neu i ddatgelu gwybodaeth benodol.

Treatment of Information

10. Openness in the dissemination of information and decision making should be the norm in relevant authorities. However, certain information may be confidential or sensitive and therefore not appropriate for a wide audience. Where confidentiality is necessary to protect the privacy or other rights of individuals or bodies, information should not be released to anyone other than a member, relevant authority employee or other person who is entitled to receive it, or needs to have access to it for the proper discharge of their functions. Nothing in this Code can be taken as overriding existing statutory or common law obligations to keep certain information confidential, or to divulge certain information.

Penodi Staff

11. Rhaid i gyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol sy'n ymwneud â recriwtio a phenodi staff sicrhau bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail rhagoriaeth. Er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad posibl o duedd, rhaid i gyflogeion o'r fath beidio ag ymwneud ag unrhyw benodiad, nac unrhyw benderfyniadau eraill sy'n ymwneud â disgyblu, dyrchafu neu dâl ac amodau unrhyw gyflogai arall, neu ddarpar gyflogai, y maent yn perthyn iddynt, neu y mae ganddynt berthynas bersonol agos â hwy y tu allan i'r gwaith.

Appointment of Staff

11. Qualifying employees of relevant authorities involved in the recruitment and appointment of staff must ensure that appointments are made on the basis of merit. In order to avoid any possible accusation of bias, such employees must not be involved in any appointment, or any other decisions relating to discipline, promotion or pay and conditions for any other employee, or prospective employee, to whom they are related, or with whom they have a close personal relationship outside work.

Ymchwiliadau gan Swyddogion Monitro

12. Pan fydd swyddog monitro'n cynnal ymchwiliad yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 73(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**), rhaid i gyflogai cymwys gydymffurfio ag unrhyw ofynion a wneir gan y swyddog monitro hwnnw mewn cysylltiad ag ymchwiliad o'r fath.

Investigations by Monitoring Officers

12. Where a monitoring officer is undertaking an investigation in accordance with regulations made under section 73(1) of the Local Government Act 2000(**a**) a qualifying employee must comply with any requirement made by that monitoring officer in connection with such an investigation.

(a) Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/ 2281 (Cy.171)).

(a) The Local Government Investigations (Functions of Monitoring Officers and Standards Committees) (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/ 2281 (W.171)).

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 2280 (Cy.170)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001

2001 No. 2280 (W.170)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Code of Conduct (Qualifying Local Government Employees) (Wales) Order 2001

©℗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090292-0

9 780110 902920

£2.00

T327/07/01